**EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**

**Rhif 94 – Parti Cerdd Dant 14 – 25 oed - Aelwyd**
(dim mwy na 20 mewn nifer)
Bois y Cestyll – Tudur Dylan Jones

Cainc: Seiriol – Gwennant Pyrs (1122) – Nudd Gwyn a Cheinicau Eraill - Curiad

# Bois y Cestyll

***(Mae tri chastell yn ardal Llandeilo a fu'n gadarnle i'r Cymry dros y canrifoedd)***

Yn Ninefwr hynafol
yr Arglwydd Rhys, erys ôl
cannoedd o frwydrau cynnar
yn gaerau gynt ar graig wâr,
yn gaerau heirdd lle bu gwres
a meini lle bu mynwes.

Hon yw cân Carreg Cennen,
a mawrhad y muriau hen;
ond mwy na dim ond meini
i ninnau dy waliau di,
mwy na cherrig unigol
yw'r rhai sydd eto ar ôl.

Dryslwyn yr hen gymwynas
sy'n fwy na'r Dryslwyn, mae'n dras,
mae'n arf rydd, mae'n wŷr ar fryn,
a ni'n dal yn eu dilyn,
fesul cam eto'n tramwy
i godi arf gyda hwy.

Ar y maes i drwsio'r mur
mae, eilwaith, angen milwyr;
mae angen gwŷr eleni
i roi'n ôl ein tir i ni,
y gwŷr dan ddraig a erys
heddiw'n rhan o fyddin Rhys.